



PEIDIWCH Â BWYDO'R GWYLANOD

Gwybodaeth ac Arweiniad i Ddeiliaid Tai



Sylwer – Mae gwyllod yn cael eu hamddiffyn yn gyfreithiol ar lefel sylfaenol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) ac mae'n anghyfreithlon lladd unrhyw aderyn, na difrodi, dinistrio nyth actif neu ei gynnwys yn fwiadol.

Cydnabyddir bod bwydo a gwyllo adar gwyllt yn ein gerddi a'n parciau yn ddifyrwch poblogaidd ac addysgiadol ac mae i'w annog. **Ond NID ADAR GARDD YW GWYLLANOD.** Cynefin naturiol gwyllt y penwaig (y rhywogaeth a welir amlaf mewn parciau a gerddi trefol) yw'r môr a'r arfordir. Ond yn ystod y degawdau diwethaf mae niferoedd cynyddol wedi'u hudo i'r mewnir gan argaeledd parod bwyd gwastraff a adewir gan bobl. Ychwanegir at fwyd gwastraff o'r fath gan ychydig o ddeiliaid tai sy'n rhoi bwyd allan ar eu cyfer. Yn ddiaw, mae'r bwriad yn un da ond camgymeriad yw gwneud hyn. Bara yw'r bwyd hwn fel arfer – **NID YW HWN YN FWYD NATURIOL I WYLLANOD AC MAE'N NIWEIDIOL, YN ARBENNIG I WYLLANOD IFANC.**

Mae'r RSPB a'r RSPCA ill dau yn cynghori **PEIDIO** â bwydo gwyllod – nid oes angen eu bwydo ac mae problemau'n codi pan fydd pobl yn eu bwydo. Maent yn bwydo'n naturiol ar bysgod, pryfed, adar môr llai a hyd yn oed wyau a chywion gwyllod eraill – nid bwyd dynol. Mae'r RSPB yn cynghori "Rhaid i ni gyd roi'r gorau i fwydo gwyllod yn y mewnir ac mewn trefi glan môr ac yn ein gerddi os ydym am newid eu hymddygiad presennol".

Mae **Cyngor Cymuned y Mwmbwls** yn annog pobl yn gryf i beidio â bwydo gwyllod, boed hynny yn eich gardd breifat neu mewn mannau cyhoeddus. Os hoffech fwydo adar yr ardd (nid gwyllod!), defnyddiwch offer bwydo crog pwrpasol. Mae Cyngor Abertawe hefyd yn cymryd mater niwsans gwyllod o ddifrif a lle mae tystiolaeth yn dangos bod unigolion yn creu niwsans yn fwiadol, ni fyddant yn oedi cyn cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol. Maent yn cynghori pobl i roi gwybod am broblemau drwy eu gwefan yn <https://www.abertawe.gov.uk/problemlygredd>.

Os caiff gwyllod eu bwydo'n rheolaidd, bydd yn creu poblogaeth artiffisial o uchel ac yn annog rhagor o barau magu i nythu yn yr ardal. Mae Peter Rock (arbenigwr adar sy'n ymwneud ag ymchwil rhyngwladol i wyllod ers 1980) yn rhybuddio **unwaith y bydd un pâr yn cartrefu mae eraill yn dilyn a bydd y problemau'n cynyddu'n gyflym.**

Gall problemau gynnwys y canlynol:

- **Sŵn** – mae eu galwad tiriogaethol yn uchel iawn, yn dechrau yn oriau mân y bore a gall arwain at ddiffyg cwsg ac mae'r GIG yn cynghori y gall diffyg cwsg gael effeithiau andwyol difrifol ar iechyd corfforol unigolyn. Os cânt eu bwydo'n rheolaidd, byddant hefyd yn galw dro ar ôl tro trwy gydol y dydd, a gall hyn hefyd effeithio'n sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant pobl.
- **Gwastraff ysgarthol** – ar eiddo pobl, cerbydau, ffenestri, y golch ac ati.
- **Effaith ar adar yr ardd** – mae gwyllod yn ymosod ar adar yr ardd ac yn eu bwyta a'u gyrru allan o'u cynefin.
- **Iechyd y cyhoedd** – cynnydd yn y risg o e-coli, salmonela a botwliaeth.
- **Sbwriel** – cynnydd mewn sbwriel o fagiau bin sy'n cael eu rhywgo ar agor.
- **Difrod i eiddo** – gan gynnwys i ddeunydd inswleiddio, systemau aerdymheru, ffelt toi, sêl blwm toi, ac yn achosi rhystrau mewn gwteri a ffliwiau nwy ac ati. Mae'n llawer gwell eu hatal rhag nythu yn y lle cyntaf.
- **Ymosodiadau** – gydag adenydd sydd hyd at 148cm o led pan ar agor, a chorff sydd hyd at 60cm o hyd, gall gwyllod llawn dwf achosi anaf difrifol wrth amddiffyn ei chywion neu ei nyth (a gall ymosod ar anifeiliaid anwes bach hefyd).
- **Fermin** – mae'n anochel y bydd bwydo gwyllod yn arwain at gynnydd mewn fermin – fel llygod mawr.

Er mwyn diogelwch, iechyd a lles eich cymuned, PEIDIWCH Â BWYDO GWYLLANOD